



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF, NOS FERCHER,
HYDREF Y 13^{eg} 2021**

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Cyng. Laura Fielding; Cyng. Carol Gell; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Claire Hughes; Cyng. Delohne Merrell; Cyng. Iolo Kars Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts; Kirsty Merrell Daily

117. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

118. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cyng. Nia Jones; Dirprwy Faer Gyng. Christopher Jones; Cyng. Gareth Wyn Jones

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

119. Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Fe dderbyniwyd mater cynllunio hwyr. Bu i'r Cyng. A Hinchliff ddatgan ei rôl ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond bu iddo gadarnhau bod modd iddo aros yn y cyfarfod cyhyd â'i fod yn ymatal rhag cynnig sylwadau am y mater.

Cyng C Gell – Pwyllgor y Llyfrgell

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

120. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd:

1. Roedd Is-gadeirydd Banc Bwyd Llanfairfechan yn bresennol – soniwyd bod y pwyllgor wedi cwrdd ac wedi dwyn i ystyriaeth yr holl agweddau ynghlwm â'r cynllun i symud i Neuadd Pen Dalar. Fe gynhaliwyd pleidlais ac fe gytunwyd bod gormod o ansicrwydd ynghylch cyllid i gymryd yr awenau dros ganolfan newydd. Bydd y Banc Bwyd yn aros yn Eglwys y Santes Fair a Christ lle nad ydyn nhw'n gorfod talu rhent ar hyn o bryd. Mae'r Eglwys yn fodlon parhau i gefnogi'r prosiect drwy gynnig lleoliad am ddim.

Cwestiwn 1 – Beth ydy'r sefyllfa ynghylch Neuadd Pen Dalar? Bydd y Clerc yn cysylltu gyda CBSC, Cartrefi a Gwasanaethau Ieuenctid CBSC i'w hysbysu o'r sefyllfa. Ar hyn o bryd, gan nad oes gan y neuadd bwyllgor nac ychwaith grŵp rheoli, bydd yn parhau i fod yn wag am y tro. Mae'n bosib yn y dyfodol y gallai Pwyllgor y Neuadd Gymunedol gymryd yr awenau dros Pen Dalar fel lleoliad ychwanegol ond does dim modd gwneud hynny ar hyn o bryd. Yn dilyn y drafodaeth hon, soniwyd bod deiliant cadarnhaol ar gyfer Sefydliad yr Eglwys oherwydd caiff ei ddatblygu i fod yn ysgol hyfforddi cŵn gan fod BIRD wedi symud yno. Bydd y Cyngor Tref yn parhau i geisio dod o hyd i denantiaid i gymryd yr awenau dros Pen Dalar ac yn trafod y camau nesaf gydag asiantaethau.

2. Mae CBSC yn dal yn aros am hysbysiad gan Lywodraeth Cymru felly does dim llawer o wybodaeth am y mater. Bydd swyddogion yn mynychu'r cyfarfod nesaf. Fe dderbyniwyd datganiad dros e-bost gyda gwybodaeth dros dro: Yn anffodus ni fu modd i'r contractwr wnaeth CBSC ei benodi'n wreiddiol barhau gyda'r gwaith fel y cynllunwyd ac o ganlyniad bu oedi gyda chyflawni'r gwaith. Fodd bynnag, maen nhw wedi penodi contractwr newydd erbyn hyn. Cynhaliwyd arolwg o'r safle heddiw ac yn dilyn hynny maen nhw wedi cychwyn ar y gwaith erbyn hyn. Fel rhan o'r gwaith bydd angen sgubo'r cerrig mân o'r safle a pharatoi'r manau sydd angen eu hadfer. Yna, yn dilyn hynny byddan nhw'n mynd rhagddi gyda'r gwaith ailwampio. Mae disgwyl y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ymhen ychydig ddyddiau a bydd y maes parcio'n parhau i fod ar agor yn ystod y gwaith. Fodd bynnag ni fydd lle i gymaint o geir ag arfer oherwydd bydd angen iddyn nhw amgylchynu'r adrannau maen nhw'n gweithio arnyn nhw. Mae CBSC hefyd wedi cynnwys y twll ger mynedfa'r llithrfa.

Bu i'r Rheolwr Risg Llifogydd ac Isadeiledd e-bostio gwybodaeth. Mae CBSC yn dal yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru. Byddan nhw'n derbyn ymateb yn ystod yr wythnos nesaf yn cadarnhau cyllid ar gyfer dyluniad manwl o'r cynllun arfordirol gan gynnwys y maes parcio. Caiff ei ddyrannu fel mae'n ymddangos yn eu rhaglen cyfalaf.

Cwestiwn 1, Oes modd inni gyflwyno datganiad ar y Cyfryngau Cymdeithasol i roi gwybod i'r holl breswylwyr mai atgyweiriad dros dro ydy hyn? Clerc i weithredu

Cwestiwn 2 Pryderon bod y gwaith dros dro a gwblhawyd y tro diwethaf yn beryglus. Ydy'r gwaith am fod yn addas i'w bwrpas hyd yn oed fel atgyweiriad dros dro? Soniodd CBSC y byddai'r gwaith hwn o safon uwch gan fod angen i'r atgyweiriad dros dro bara nes byddai'r prosiect sylweddol sydd wedi'i ariannu ar waith. Rydym felly wedi derbyn sicrwydd y byddai'n ddiogel.

Roedd y Cyngor Tref yn anafodlon dros ben gyda'r hysbysiad gan yr AS Robin Millar yn ystod yr wythnos. Bu iddo awgrymu y byddai'n mynd i'r afael gydag ein holl broblemau ynghylch y wal cob gyda chyllid y Gronfa Codi'r Gwastad. Ni fu iddo gysylltu gyda'r Cyngor Sir na'r Cyngor Tref o gwbl a oedd yn destun anafodlonrwydd sylweddol. Roedd y Cyngor yn teimlo bod hyn yn tansellio'r holl gydweithio cadarnhaol gyda CBSC er mwyn ceisio ennill cyllid i fynd i'r afael â'r broblem. Penderfynwyd derbyn a chofnodi.

121. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 22ain 2021 a'r rhestr weithredu gyfredol.

Fe ddsbarthwyd y Cofnodion cyn y cyfarfod a ni fu unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Action and information list for 13th October 2021 Llanfairfechan Town Council Covid-19 Alert Level 0 has been announced				
	Item	Action		Date
1	Playground equipment	CCBC will fit soon. Clerk to organise a photo shoot to celebrate	awaiting	17/09/2021
2	Parking Review	resident email to be read out in correspondance	Email sent	03/08/2021
3	Nant y Pandy Car park	This is now progressing through legal and received update on 23rd August	Email PV	
4	Promenade car park	CCBC officer attending the meeting 13th October	Email sent	31/08/2021
5	Plas Menai health visitors & Family Team	Question Time going ahead face to face 26th October 3x TC reps attending	work comp	05/10/2021
6	LDP and Community Plan	CCBC Engagement plan being developed. Email Shane with details	on hold	on hold
7	Flytipping at Station Road car park	On agenda at meetings item	Email CCBC	05/10/2021
8	A55 junction project	Public enquiry now postponed Project on hold until further notice	on hold	16/09/2021
9	Transforming Towns funding	Awaiting details of meeting	awaiting	05/10/2021
10	Bus Shelter doctors surgery	Clerk has spoken to PTC and we will be contacted when needed	awaiting	05/08/2021
11	Democracy Grant	Awaiting notification	awaiting	24/08/2021
12	Nant y Coed	CCBC Officer in communication with updates	phone	31/08/2021
13	Digital Sign damage	To discuss	Email sent	5/10/2021
14	Firework event	Final decision to be made 13th October	phone	14/10/2021
15	Remembrance Event	Final decision to be made 13th October	email	14/10/2021
16	Llanfairfechan Winter Festival	On Agenda for final decisions 13th October	report	12/10/2021
17	Defib and safety equipment	possible stakeholder meeting 19th October	email sent	08/10/2021
18	Media Trolley	on agenda	email sent	05/10/2021
19	Bus Shelter damage	reported on the 4th to CCBC / CCBC team will report back	Email recvd	05/10/2021

Pwynt 2 y Rhestr Weithredu - Fe dderbyniwyd e-bost ynghylch y cyfyngiadau parcio arfaethedig yn Llwyn Ysgaw. Mae Cynghorydd Sir wrthi'n trefnu cyfarfod safle a bydd clerck y dref yn mynychu i ysgrifennu cofnodion.

Pwynt 7 y Rhestr Weithredu - Fe gynhaliwyd cyfarfod ac mae dau fesur wedi'u cynllunio i geisio mynd i'r afael â'r broblem o dipio anghyfreithlon. Caiff yr hen arwyddion eu tynnu a byddwn yn gosod arwyddion newydd yn eu lle. Bydd y Cyngor Tref yn ystyried gosod goleuadau diogelwch solar er mwyn annog pobl i beidio â thipio. Y Clerc i barhau gyda'r prosiect hwn ar y cyd â CBSC. Cafodd y Cynghorwyr eu hatgoffa i roi gwybod am faterion sy'n codi i'r gwasanaethau priodol ac i gynghori preswylwyr i wneud hynny hefyd. Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes – y mwyaf o bobl sy'n rhoi gwybod, y mwyaf o flaenoriaeth gaiff y mater.

Pwynt 13 y Rhestr Weithredu - Arwydd Digidol – dal yn aros am adroddiad yr aseswr colled. Clerc i e-bostio eto i geisio sicrhau datblygiadau gyda'r gwaith.

Pwynt 17 y Rhestr Weithredu - Diffibriliwr a Chyfarpar Diogelwch. Mae'r Clerc yn bryderus ynghylch cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer Hydref y 19^{eg} a does dim cysylltiadau cadarn. Bydd y Cynghorwyr yn cysylltu gydag unigolion ac yn adrodd yn ôl i'r Clerc.

Pwynt 18 y Rhestr Weithredu - Troli Cyfryngau ar gyfer Cyfarfodydd Hybrid – bydd y cyfarpar yn cyrraedd y wlad ar Dachwedd y 3^{ydd}. Bydd angen i'r Cyngor Tref gymeradwyo'r taliad ar gyfer danfon cyn cyfarfod y Cyngor Tref ar Dachwedd y 23^{ain}.

Cynigwyd gan y Cyng. C Gell Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Pawb yn gytûn
chofnodi

Penderfynwyd derbyn a

122. Derbyn a chymeradwyo'r cyflwyniad ynghylch yr Arolwg Cymunedol

Bu i'r Cyng. Iolo Kars Jones gyflwyno canlyniadau'r arolwg cymunedol diweddar. Bydd ar gael i breswylwyr fwrw golwg arno'n fuan. Bu i 50 o breswylwyr ddychwelyd yr holiaduron. Cafodd 8 preswlydd, 4 Cynghorydd Tref a 2 Gynghorydd Sir eu cyfweled. Bu peth barn gyffredin rhyngddynt nhw:

Cyfarfodydd oedd y dull mwyaf amhoblogaidd ar gyfer cydweithio a thrafod materion cynllunio cymunedol. Dywedodd y preswylwyr eu bod yn ffafrio man cydweithredol lle gallan nhw gyflwyno'u barn; un ai ar-lein neu ar ffurf blwch cymunedol. Canlyniad annisgwyl oedd bod pobl yn cytuno eu bod yn fwy ffyddiog mewn prosiect dan arweiniad cynrychiolwyr etholedig a staff y Cyngor Tref yn hytrach na phrosiect o dan arweiniad y preswylwyr. Mae hyn yn dystiolaeth y byddai partneriaeth gwaith rhwng preswylwyr, aelodau etholedig a staff yn ddull derbyniol. Bu i'r ymatebwyr hefyd sôn y dylid ymwneud gyda rhwydwaith eang gan sicrhau bod cynrychiolwyr o ysgolion, y GIG a grwpiau amgylcheddol ynghlwm â'r broses. Bydd mwy o wybodaeth yn y sesiwn galw heibio am Gynllunio Cymunedol ar ddydd Mercher, Hydref yr 20^{fed} am 7yh. Estynnwyd diolch i'r Cyng. Jones am ei holl waith a soniwyd y byddai'r gwaith yn gadael etifeddiaeth gadarnhaol gan edrych tua'r dyfodol. Penderfynwyd derbyn a chofnodi

123. Trafod a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer digwyddiadau cymunedol

1. Pwmpenni Calan Gaeaf – caiff y rhain eu dosbarthu o 10:00yb – 12:00yp ar ddydd Llun, Hydref y 25ain. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd Incredible Edibles yn ymuno gyda ni i gynnig cyfle i flasau cawl pwmpen. Mae hyn wedi'i gytuno gan y Cyngor Tref eisoes. Gallwn gadarnhau y byddai Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu tuag at y prosiect drwy eu cyllid PACT. Diolch yn fawr i Nood Food am ein helpu i gaffael y pwmpenni.

2. Digwyddiad Tân Gwylt – Tachwedd y 5ed. Bu trafodaeth faith am hyn a gan fod cynghorau eraill wedi penderfynu peidio â chynnal eu digwyddiadau nhw oherwydd y risgiau ynghlwm â Covid-19, fe benderfynwyd na fydd digwyddiad yn Llanfairfechan eleni ychwaith.

3. Digwyddiad Sul y Cofio 2021. Cytunwyd bod pryderon sylweddol ynghylch y niferoedd sy'n mynychu'r gwasanaeth Sul y Cofio a soniwyd bod yr ardal o amgylch y senotaff yn gymharol fach.

Bu i glerc y dref baratoi tri opsiwn ac fe gyflwynodd y rhain yn y cyfarfod cynllunio diweddar a chyfarfod y Cyngor Tref. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r grwpiau cymunedol sy'n gosod torchau i seremoni gosod torchau yn ystod yr wythnos cyn Sul y Cofio. Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus o fideo coffa Llanfairfechan o 2020, byddwn yn paratoi fideo o'r seremoni gosod torchau eleni ac yn ei ddangos am 11yb ar Dachwedd y 14^{eg}.

4. Gŵyl y Gaeaf Llanfairfechan Tachwedd yr 20fed – 23ain. Cafodd adroddiad ei rannu cyn y cyfarfod gyda gwybodaeth am y digwyddiadau canlynol:

1. Marchnad bwyd a chrefftau artisan lleol – dydd Sadwrn, Tachwedd yr 20fed

Caiff ei gynnal o 2:00-6:00yh yn y Neuadd Gymunedol a thu allan i'r cyntedd. Bydd stondinau y tu mewn gydag amrywiaeth o gynnyrch lleol a bydd Rhostwyr Dragon wedi parcio y tu allan i'r neuadd gan gynnig eu coffi arobryn a diodydd poeth eraill. Mae 16 o stondinau wedi'u cadarnhau eisoes a chaiff cyfanswm o 20 eu caniatáu yn y neuadd.

Cynigion i'w cymeradwyo:

1. Ffair bleser – O ystyried y ffigyrau Covid-19 cyfredol, bu i rai o'r cynghorwyr leisio'u pryderon. Bu i bwyllgor Goleuo Llan archebu'r Cae Ffair ac mae'r gweithredwr eisoes wedi anfon asesiadau risg hollgynhwysol sy'n dangos caiff y ffair ei chynnal gan gydymffurfio gyda rheoliadau Covid. Bu cryn drafodaeth ynghylch hyn ond yn y pendraw roedd y cynghorwyr o'r farn y byddai modd monitro'r safle yn ofalus ac mai gweithredwyr y ffair

fyddai'n gyfrifol. Y Clerc i holi am reidiau i'r teulu sy'n addas i blant ieuengach ac i bwysleisio na fyddai angen stondinau gyda theganau plastig.

2. Derbyniwyd cais i'r Cyngor Tref ariannu adloniant Nadolig proffesiynol. Caiff dyfynbris ei chyflwyno i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

3. Cytunwyd y dylid prynu trwydded TENS am £21.00 ar gyfer y farchnad ar Dachwedd yr 20^{fed}.

3. Ffair Gymunedol ar ddydd Sul, Tachwedd yr 21ain

Bydd y ffair yn y neuadd gymunedol o 12:00-4:00yp. Bydd hyd at ugain o stondinau y tu mewn a byddan nhw'n codi ymwybyddiaeth o'r amryw grwpiau cymunedol sydd gennym ni yma yn Llanfairfechan. Caiff Groto Siôn Corn y Clwb Rotari ei baratoi yn y cyntedd. Hefyd bydd standin peintio wynebau Tammy gerllaw i gynnig celf wyneb thema Nadolig rhad ac am ddim i unrhyw blant sy'n dymuno cymryd rhan.

Cynigion i'w cymeradwyo:

1. Bydd y peintiwr wynebau yn cynnig gwasanaeth peintio wyneb am ddim i deuluoedd sy'n mynychu am £160.00

I'r Cyngor Tref. Pawb yn gytûn

4. Sesiwn ffeirio teganau ac anrhegion Nadolig ar ddydd Llun, Tachwedd yr 22ain

Bydd hyn y tu allan i'r neuadd gymunedol o 11:00-3:00yp. Bydd y digwyddiad yn fodd i breswylwyr ddod â'u teganau ac anrhegion diangen i'r standin gan eu ffeirio am eitemau eraill y gallan nhw eu defnyddio fel anrhegion Nadolig o bosib. Rydym felly yn parhau gydag ein hethos peidio gwario ymghlwm â chymaint o ddigwyddiadau cymunedol â phosib ac er mwyn hyrwyddo ailgylchu eitemau yn yr ardal.

Cynigion i'w cymeradwyo:

1. Caiff galwad sylweddol ar gyfer teganau mewn cyflwr da ei drefnu. Yna fe allai rhieni ddod draw i ddewis anrhegion i helpu gyda chost y Nadolig.

2. Cytunwyd y caiff unrhyw deganau ar ddiwedd y digwyddiad eu cyfrannu i'r Banc Bwyd eu dosbarthu.

5. Perfformiad Golau Gaeaf ar ddydd Mawrth, Tachwedd y 23^{ain}

Bydd y prosiect CBSC hwn ar y promenâd lle bydd dau berfformiad cymunedol gyda 200 o docynnau. Bydd mwy o wybodaeth maes o law ond bydd yn ddigwyddiad bendigedig heb os ac yn ddiweddglo penigamp i Wyl y Gaeaf. Bydd Clerc y Dref yn cydweithio'n agos gyda CBSC i sicrhau y gallai'r preswylwyr archebu tocynnau ac ymuno gyda'r perfformiadau.

Soniwyd bod y rhaglen yn eang dros ben ac yn glod i'r tîm staff, yn enwedig y Gweithiwr Prosiect Cymunedol.

Bu trafodaeth ynghylch canslo'r digwyddiad tân gwyllt gan gymharu hynny gyda'r bwriad i barhau gyda'r cynlluniau ar gyfer Gŵyl y Gaeaf. Y ffactor cadarnhaol ynghlwm â digwyddiadau arfaethedig Gŵyl y Gaeaf ydy eu bod i gyd yn haws i'w trin a'u rheoli ac mae gennym ni nifer o bartneriaid ynghlwm i'n helpu i reoleiddio'r digwyddiadau. Mewn cyfnod lle mae'r pandemig yn dal ar Lefel Rhybudd 0, nid oes modd inni danamcangyfrif y lefel o gyfrifoldeb ar y corff trefnu. Mae'n rhaid sicrhau bod yr asesiadau risg yn drylwyr er mwyn diogelu'r cyhoedd. Mae'r staff wedi cynghori'r Cyngor Tref yn gryf bod unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at orlenwi heb ei reoli, hyd yn oed yn yr awyr agored, yn ddigwyddiad lle gallai'r feirws gael ei lledaenu'n eang. O ganlyniad fe gaiff y gallu i ddiogelu'r cyhoedd ei gwestiynu. Caiff digwyddiadau Gŵyl y Gaeaf eu rheoli'n ofalus gyda dim ond nifer cyfyngedig o bobl yn symud o un safle i'r llall ar y tro, gan sicrhau dull diogel yn ymwneud â digwyddiadau cymunedol.

Cynigwyd gan y Faeres Gyng. P Andow Eiliwyd gan y Cyng. C Gell Pawb yn gytûn

Penderfynwyd

derbyn a chofnodi

124. Trafod a chymeradwyo adroddiadau Cyfarfodydd Cynllunio Cymunedol Llanfairfechan Cynaliadwy

1. Dydd Mercher, Hydref yr 20fed – Sesiwn gynllunio cyntaf i Gyflwyno Trawsnewid Trefi

2. Dydd Mercher, Tachwedd y 10fed – Digwyddiad Gwybodaeth Diogelwch Cymunedol

3. Dydd Mercher, Rhagfyr yr 8fed – Cyfarfod y Cyngor Tref ynghylch Llanfairfechan yn Dathlu'r Nadolig o 8yh ymlaen

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u trafod eisoes a byddwn yn e-bostio mwy o wybodaeth maes o law.

Bydd y tîm staff yn parhau i drefnu'r cynlluniau ac yn adrodd yn ôl dros e-bost ac yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

125. Trafod a chymeradwyo cyfarfodydd hybrid a'r cynnydd o ran cyfarpar cyfryngau
Trafodwyd fel rhan o Bwynt 18 y Rhestr Weithredu Penderfynwyd derbyn a chofnodi
126. Derbyn Adroddiadau Cyllid Hydref
Cynigwyd gan y Cyng. D Merrell Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi
127. Derbyn a chymeradwyo taliadau ar gyfer Hydref 2021
1. Taliadau Staff – cyflogau Medi a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr a'r gweithwyr hyd yn hyn
Ni ddarparwyd yr Adroddiad Cyllid Staffio ond fe gaiff ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Bydd y cyflogau'n newid mis yma oherwydd cyllid Byw'n Dda
 2. Anfoneb pro forma gan Elementary Technology am y Troli Cyfryngau – £4501.00 + £900.20 TAW
 3. Cynnyrch glanhau a phapur gan Viking £62.58
 4. Sgipiau CBSC £276.00
 5. Gwaith Trwsio ym man chwarae Gerddi Victoria gan CBSC £276.00
 6. Cyng P Andow Lwfans y Maer ar gyfer Gwobrau Croquet £18.80 (adolygol)
 7. Clwb Bowlio Llanfairfechan grant s137 2021 £800.00 (adolygol)
 8. Toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus EPC Forestry Medi £800.00 (adolygol)
- Bu inni dderbyn anfoneb hwyr gan CBSC am gyfraniad tuag at waith Nant y Coed – Clerc i e-bostio CBSC i dderbyn yr adroddiad am y gwaith cyn talu'r anfoneb.
- Cynigwyd gan y Cyng. D Merrell Eiliwyd gan y Cyng. C Hughes Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi
128. Trafod materion cynllunio
Gofynnwyd i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda gofynion swyddogion cynllunio CBSC yn ymwneud â'r mater hwn
Penderfynwyd derbyn a chofnodi
129. Derbyn gohebiaeth
1. Parcio yn Llwyn Ysgaw - Cafodd hyn ei drafod fel rhan o bwynt 2 ar y Rhestr Weithredu.
 2. Ymgynghoriad llwybrau teithio llesol – cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod i gasglu ymateb gan y Cyngor Tref
 3. Ffaglau Jiwbilî – Clerc i ymchwilio ydy'r Cynghorau Tref eraill am gymryd rhan ac adrodd yn ôl
 4. Hysbysiad ymddiswyddo – soniodd clerc y dref eu bod nhw wedi derbyn gohebiaeth gan y Cynghorydd Rob Jewell yn datgan ei fwriad i ymddiswyddo. Clerc i fynd rhagddi gyda'r mater ac adrodd yn ôl.
1. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
Llyfrgell Gymunedol – cafodd adroddiad o'r cyfarfod ei ddsbarthu cyn y cyfarfod. Y tîm staff i ddatblygu'r prosiect ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Mae'r Cyngor Tref yn bwriadu helpu drwy gynnig y staff canlynol:
1. Gweithiwr Prosiect Cymunedol : gallai weithio yn y llyfrgell ar fore dydd Mercher i gwrdd gyda grwpiau cymunedol ac unigolion fyddai â diddordeb mewn rhentu'r llyfrgell a chynnig gwasanaethau i'r gymuned.
 2. Gallai'r Gweithiwr Prosiect Cymunedol hefyd gymryd archebion a chyflawni cyfrifoldebau daliwr allwedd fel rhan o'i chytundeb ugain awr
 3. Caiff yr archebion eu cadw yng nghynllunydd wythnosol y Neuadd Gymunedol i hysbysebu'r digwyddiadau yn y llyfrgell.
2. Cyfarfod Maes Parcio Ffordd yr Orsaf – Cafodd hyn ei drafod fel rhan o Bwynt 2 y Rhestr Weithredu.
130. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys
1. Bu pryderon ynghylch cleifion hŷn yn gorfod trafferthu i aros y tu allan i'r fferyllfa o dan gyfyngiadau cyfredol Covid-19. Y Clerc i e-bostio yn gofyn oes modd gosod cadair tu allan i helpu gyda'r sefyllfa.
 2. Soniwyd, gan fod y Llywodraethwyr wedi gadael yr ysgolion, mae angen rhagor o wybodaeth ar y Cyngor Tref ynghylch cynrychiolwyr Llywodraethu ar gyfer yr ysgolion. Rydym yn disgwyl eglurhad gan CBSC ac fe fydd yn eitem ar yr agenda yn y dyfodol.

3. Bydd Llanfairfechan yn rhan o astudiaeth prawf gan CBSC ynghylch eiddo gwag ac maen nhw wedi cysylltu gyda holl landlordiaid Ward Pandy. Dim ond un landlord sydd heb ymateb ac mae'r gweddill mewn trafodaethau gyda CBSC ynghylch eu prosiect tai. Rydym yn gobeithio cynnig hyn yn ward Bryn hefyd ac rydym wedi cysylltu gyda CBSC.
 4. Yn sgil newid o ran y llwyni drysi ac ati ar hyd y llwybr. Y Clerc i gysylltu gyda chontractwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus i helpu gyda hyn.
 5. Pryderon ynghylch y lloches ger pont droed y promenâd gan na fu unrhyw gynnydd. Clerc i e-bostio CBSC i holi ydyn nhw'n dymuno cydweithio i fynd i'r afael â'r broblem hon.
 6. Estynnwyd diolch i lolo Kars Jones am ei waith ar ran y Cyngor Tref a bu inni ddymuno'r gorau iddo gyda'i yrfa yn y dyfodol gyda Chyngor Sir Norfolk. Bydd y cynghorydd yn cyflwyno'i ymddiswyddiad gan ei fod yn symud o'r ardal. Soniwyd y bu cydweithio gyda'r Cyngor Tref yn brofiad cadarnhaol a bu iddo fanteisio ar gyfoeth o brofiadau ac addysg yn sgil hynny.
131. Cloi a'r cyfarfod nesaf: Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref, nos Fercher, Tachwedd y 3ydd 2021 am 7yh dros ZOOM.
Bydd rheoliadau Covid -19 ar waith.

Gallwch gysylltu gyda'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol, Jayne Neal gydag unrhyw ymholiad ar ddydd Llun, Mawrth a Mercher o 9yb tan 12yp ar 01248681697 neu gallwch e-bostio jayne@llanfairfechan.net